# Adolygiad o Wasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 7

Ein canfyddiadau 8

Argymhellion 20

1 Ynglŷn â'n gwaith 24

2 Ymateb y Rheolwyr 27

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried pa mor dda y mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) wedi'i threfnu i wella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS).

2 Nid ydym wedi bwrw golwg ar feini prawf cymhwystra'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, a gaiff eu pennu gan Lywodraeth Cymru, rôl y Cydbwyllgor Comisiynu, na'r camau gweithredu a gymerwyd gan y saith bwrdd iechyd.[1]

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am redeg y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, a gomisiynir gan y Cydbwyllgor Comisiynu, ar ran y saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

4 Mae'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn darparu cludiant ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu teithio i ac o'u hapwyntiadau meddygol ar eu liwt eu hunain. Mae'n wasanaeth pwysig sy'n sicrhau bod cleifion ledled Cymru'n gallu cael mynediad at driniaeth hanfodol gan y GIG.

[1] Fe sefydlwyd y Cydbwyllgor Comisiynu ym mis Ebrill 2024 fel cydbwyllgor rhwng y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r Cydbwyllgor Comisiynu'n cynllunio ac yn comisiynu ystod o wasanaethau arbenigol a gwasanaethau gofal iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau meddygol mewn argyfwng, ar ran y saith bwrdd iechyd.

5 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi ei chael hi'n anodd gyda galw cynyddol, adnodau cyfyngedig, a nifer uchel o apwyntiadau ar gyfer siwrneiau'n cael eu canslo ar y dydd ac ar y funud olaf.[2] Mae hyn wedi effeithio ar ba mor effeithlon y mae'r gwasanaeth yn rhedeg.

6 Ym mis Mawrth 2025, fe wnaeth y Cydbwyllgor gymeradwyo Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yng Nghymru 2030 (Gweledigaeth y Dyfodol). Mae hon yn nodi pum maes blaenoriaeth allweddol i drawsnewid a gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys fel ei fod yn gallu ateb y galw yn y dyfodol a darparu gofal da ar gyfer cleifion.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

7 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau uchelgeisiol i wella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Mae'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd â Gweledigaeth y Dyfodol ac fe'u goleuir gan ddata ar berfformiad. Fodd bynnag, nid yw manteision a deilliannau disgwyliedig wedi'u diffinio eto, nid yw rolau a chyfrifoldebau ar draws partneriaid wedi'u cytuno'n llawn, ac nid yw cynlluniau wedi'u costio na'u blaenoriaethu'n llawn.

8 Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu trefniadau rheoli rhaglen ar gyfer gwelliannau i'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, ond nid yw'r rhain wedi'u sefydlu'n llawn eto. Mae'r Ymddiriedolaeth a'r Cydbwyllgor Comisiynu'n monitro camau gweithredu a pherfformiad, ond nid oes gan yr Ymddiriedolaeth olwg glir eto ar gynnydd yn erbyn deilliannau disgwyliedig Gweledigaeth y Dyfodol ar draws y system yn ei chyfanrwydd. Er mwyn cyflawni'r deilliannau hynny bydd yn rhaid wrth gyflawni cyflymach, ffocws mwy eglur ar fanteision, a chydweithio agosach gyda phartneriaid allweddol.

---

[2] Caiff siwrneiau wedi'u canslo eu hachosi gan ystod o ffactorau, gan gynnwys canslo gan gleifion, ysbytai ac oherwydd diffyg capasiti yn yr Ymddiriedolaeth.

9 Mae'r modd y cyflawnir camau gwella allweddol wedi bod yn arafach na'r bwriad mewn rhai meysydd. Er bod perfformiad wedi gwella ar gyfer rhai mathau o siwrneiau, mae pwysau megis galw cynyddol, anghenion mwy cymhleth gan gleifion, canslo, oedi, a materion cyfathrebu yn parhau i effeithio ar brofiad cleifion. Nid yw adroddiadau'n cysylltu camau gwella â cherrig milltir, manteision nac effaith fesuradwy mewn modd cyson. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anos asesu a yw newidiadau'n cyflawni'r deilliannau bwriadedig.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

10 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad fel rhan o'r adroddiad hwn. Maent yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- gwneud cynlluniau'n fwy eglur trwy ddiffinio deilliannau ac adnoddau'n well;
- sefydlu trefniadau rhaglen, risg, a goruchwylio mwy eglur;
- cyflawni gwelliannau'n gyflymach a chydweithio'n well gyda phartneriaid; a
- gwella adroddiadau fel eu bod yn dangos yn fwy eglur beth yw effaith camau gweithredu.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

| | |
|---|---|
| 570,000 | Nifer cyfartalog siwrneiau'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys bob blwyddyn yng Nghymru. |
| 640 | Nifer y staff sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. |
| 161 | Nifer y gyrwyr ceir gwirfoddol. |
| 42% | Canran y siwrneiau a gwblhawyd gan ddarparwyr preifat, tacsis, a'r sector gwirfoddol a chymunedol ar ran Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. |
| 63,000 | Nifer yr achosion o ganslo ar fyr rybudd (o fewn pedair awr) yn 2025. |
| 14% | Nifer yr apwyntiadau ar gyfer siwrneiau a ganslwyd ar y dydd yn ystod mis Mawrth 2025. |
| 18,000 | Nifer y siwrneiau ychwanegol y flwyddyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y byddant yn cael eu creu gan newidiadau digidol a newidiadau i drefniadau cylchrestru, unwaith y byddant wedi'u rhoi ar waith yn llawn. |

# Ein canfyddiadau

## Cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys

### Mae cynlluniau gwella'n uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â Gweledigaeth y Dyfodol, ond nid yw manteision a chydgyfrifoldebau wedi cael eu diffinio'n llawn eto

11 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi cynlluniau uchelgeisiol i foderneiddio'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn unol â Gweledigaeth y Dyfodol, yn bennaf trwy ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2026-29. Mae'r cynllun hwn yn nodi bod y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn flaenoriaeth allweddol. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon parhaus ynghylch canslo, oedi a phrofiad cleifion ar y cyfan.

12 Mae cynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn seiliedig ar amrywiaeth eang o ddata ynghylch perfformiad ac yn dangos dealltwriaeth dda am bwysau cyfredol ar y gwasanaeth.

13 Fe wnaethom adolygu cynlluniau a dogfennau ategol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cyflawni'r pum maes blaenoriaeth a nodir yng Ngweledigaeth y Dyfodol. Ceir crynodeb o'n hasesiad yn **Arddangosyn 1**. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi adnabod y camau gwella cywir, ond bod angen rhagor o waith i'w troi'n rhaglen y gellir ei chyflawni.

**Arddangosyn 1: Cynlluniau'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd nodau allweddol Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys**

| Blaenoriaeth strategol allweddol | Canfyddiadau |
|---|---|
| Moderneiddio ar gyfer newid:<br><br>Addasu adnoddau a dull darparu'r gwasanaeth, i ymateb i anghenion newidiol y boblogaeth a'r system gofal iechyd. | Mae cynlluniau'n dangos bwriad strategol cryf i wella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, gyda chamau gweithredu eglur ar gymhwystra cleifion, cylchrestru dyletswyddau staff, fflyd, ac ystadau.<br>Mae camau gweithredu penodol yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys:<br>• defnyddio staff a chludiant yn fwy effeithiol trwy gylchrestru a chynllunio gwell fel y gellir cludo mwy o gleifion;<br>• cytuno ar siâp y fflyd gofal ambiwlans yn y dyfodol i sicrhau ei bod yn parhau i fod â'r allyriadau carbon lleiaf; a<br>• defnyddio technoleg ac offer i wella diogelwch a safonau gweithio.<br>Mae Gweledigaeth y Dyfodol hefyd yn amlygu'r angen i adolygu meini prawf cymhwystra cludiant cleifion i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion GIG Cymru yn well. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, y Cydbwyllgor Comisiynu, a byrddau iechyd yw'r adolygiad hwn, ond nid yw'n glir eto pryd y bydd yn digwydd. Yn y cyfamser, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau cymhwyso'r meini prawf cymhwystra presennol yn fwy llym i helpu i reoli'r galw. |

| Blaenoriaeth strategol allweddol | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Trawsnewid digidol:<br><br>Trosoli technoleg i wella cydlyniad, effeithlonrwydd a phrofiad cleifion. | Mae cynlluniau'n cynnwys nifer o newidiadau digidol i sut y rheolir archebion a chyfathrebu gyda chleifion, megis cysylltu system archebu'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys â byrddau iechyd.<br>Ond nid oes gan rai camau gweithredu linellau amser eglur na mesurau eglur o lwyddiant. Hefyd, nid yw cynlluniau'r Ymddiriedolaeth i gysylltu ei system archebu â systemau byrddau iechyd wedi'u cynnwys yn ei chynlluniau digidol ac nid adroddir arnynt wrth y pwyllgorau perthnasol. |
| Integreiddio Strategol:<br><br>Sicrhau bod gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys yn cael eu hintegreiddio o fewn y system gofal iechyd ehangach. | Gall yr Ymddiriedolaeth gyfeirio at enghreifftiau o weithgarwch integreiddio gyda phartneriaid y system, gan gynnwys gwaith peilot gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gydgysylltu data, gwella effeithlonrwydd archebu, a lleihau achosion o ganslo ar fyr rybudd.<br>Ond ar adeg ein gwaith ni, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi nodi dull eglur o ddysgu o beilotau integreiddio'r system na sut y byddai hyn yn cael ei roi ar waith yn fwy eang pe bai'n llwyddiannus. |

| **Blaenoriaeth strategol allweddol** | **Canfyddiadau** |
| --- | --- |
| Ffocws ar gleifion:<br><br>Blaenoriaethu anghenion ac adborth cleifion i wella'r modd y darperir y gwasanaeth. | Er nad oes gan yr Ymddiriedolaeth ffrwd waith sydd wedi'i neilltuo i'r conglfaen hwn, mae'n gweithredu trwy waith arall i wella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad at systemau archebu a newid cylchrestrau dyletswyddau staff i gynyddu capasiti.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn casglu adborth gan gleifion trwy arolygon, cwynion, a storïau cleifion. Mae'r adborth hwn yn gyson yn amlygu pryderon ynghylch achosion o ganslo, sy'n effeithio ar hyder cleifion yn y gwasanaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'w rhaglen wella ehangach helpu i leihau'r pryderon hyn a gwella profiad cleifion dros amser. |
| Gweithio mewn partneriaeth:<br><br>Meithrin perthnasoedd cydweithredol cryf â sefydliadau partneriaeth i wella deilliannau'r gwasanaeth. | Mae camau trawsnewid digidol yr Ymddiriedolaeth wedi'u bwriadu i wella cydlyniad a chydgynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys.<br>Trwy ddefnyddio technoleg newydd a chynnig mwy o ffyrdd o archebu siwrneiau, mae'r Ymddiriedolaeth yn amcanu at symleiddio prosesau a chryfhau sut y mae'n cydweithio gyda darparwyr cludiant, cleifion, a byrddau iechyd. Dylai hyn helpu i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac ymatebol. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

14 Er bod cynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys wedi'u nodi yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2026-29, nid oes cynllun gweithredu a gydberchnogir sy'n dyrannu cyfrifoldebau, cerrig milltir ac atebolrwydd yn eglur ar draws partneriaid y system. Golyga hyn nad yw hi wastad yn glir pa gamau gweithredu y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymryd ar ei phen ei hun a pha rai y mae byrddau iechyd yn gyfrifol amdanynt.

15 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mapio camau gweithredu Gweledigaeth y Dyfodol yn erbyn ei chynlluniau hi i ddangos ble y mae camau gweithredu'n cyd-fynd â'i gilydd a ble y ceir bylchau. Mae'r bylchau'n ymwneud yn bennaf â chamau gweithredu sy'n golygu bod angen cydweithio gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu a phartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys cymhwyso rheolau cymhwystra, darparu cludiant amgen, a rhannu data. Heb gynllun ar y cyd, mae'n anodd pennu cerrig milltir eglur a sicrhau atebolrwydd am gyflawni Gweledigaeth y Dyfodol ar draws partneriaid.

16 Mae cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen am newidiadau i drefniadau staffio, cylchrestru a'r modd y darperir y gwasanaeth i ategu gwelliannau i'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Ond mae camau gweithredu i wella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn bennaf yn rhai nad ydynt yn rhyddhau arian parod ac nid ydynt wedi cael eu costio'n llawn. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwybod a ellir cyflawni'r holl welliannau arfaethedig o fewn yr adnoddau sydd ar gael (gweler **paragraff 21**).

# Rheoli ac arwain y rhaglen

## Nid yw trefniadau rheoli'r rhaglen a rheoli risg ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys wedi cael eu datblygu na'u cydgysylltu'n llawn eto, gan gyfyngu ar sicrwydd ynghylch cyflawni

### Rheoli'r rhaglen

17 Ar adeg ein gwaith ni, roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n sefydlu Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Mae'r Ddogfen Cychwyn Prosiect ddrafft yn nodi y bydd llywodraethu a goruchwyliaeth yn cael eu cyflawni trwy Fwrdd Trawsnewid Strategol presennol yr Ymddiriedolaeth. Mae rolau rheoli prosiect allweddol yn eglur ac yn cynnwys y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fel y Noddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau (Gofal Ambiwlans) fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol.

18 Fodd bynnag, nid yw Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn llwyr weithredol eto. Roedd elfennau allweddol yn dal i gael eu datblygu ar adeg ein gwaith ni. Mae'r rhain yn cynnwys cadarnhau arweinwyr ffrydiau gwaith, cytuno ar drefniadau adrodd ffurfiol, cwblhau'r gofrestr risgiau, a chytuno ar fesurau o fanteision CAMPUS.[3] Mae'r bylchau hyn yn ei gwneud hi'n anodd cael sicrwydd llawn bod gweithgarwch gwella'n cael ei flaenoriaethu, ei gydlynu, ei fonitro a'i gyflawni mewn ffordd a fydd yn dwyn y deilliannau bwriadedig. Mae ymdrin â'r bylchau hyn yn bwysig o ystyried y pwysau ariannol y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu disgwyl yn 2026-27 (gweler **paragraff 21**).

---

[3] Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, a Synhwyrol

## Rheoli risg

19 Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn amlygu risgiau strategol a allai effeithio ar welliannau i'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Mae'r rhain yn cynnwys capasiti'r gweithlu, pwysau ariannol, a dibyniaeth ar bartneriaid y system. Fodd bynnag, mae'r risgiau hyn wedi'u gwasgaru ar draws nifer o risgiau corfforaethol ac nid ydynt wedi cael eu dwyn ynghyd mewn un lle. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweld sut y mae risgiau, cynlluniau gwella, camau gweithredu, a threfniadau sicrwydd y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn cydblethu â'i gilydd.

20 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026-29 yn cydnabod bod cyflawni blaenoriaethau gwella ochr yn ochr â gwasanaethau o ddydd i ddydd yn risg allweddol. I liniaru'r risg hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan ei bod yn blaenoriaethu gweithgarwch gwella ac yn cryfhau trefniadau rheoli rhaglen. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto a fydd y camau gweithredu hyn yn darparu digon o gapasiti i gyflawni'r holl welliannau arfaethedig o fewn y graddfeydd amser a nodir yng Ngweledigaeth y Dyfodol.

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2026-27. Mae'r rhain yn cynnwys ateb gofyniad i gyflawni arbedion gwerth £9 miliwn, cynnydd mewn costau heblaw cyflogau, a chyllid cyfyngedig ar gyfer buddsoddi. Er bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cydnabod bod pwysau ariannol yn risg strategol, nid yw hynny wedi'i gysylltu'n glir â chyflawni camau gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. O ganlyniad, ceir risg na ellir ariannu a chyflawni pob gwelliant arfaethedig i'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys.

22 Mae'r pwysau hyn yn golygu bod angen i'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu ei chamau gwella a gwneud penderfyniadau eglur ynglŷn â sut y mae'n defnyddio adnoddau i roi cymorth i'w cyflawni. Heb gyswllt cryfach rhwng blaenoriaethau, camau gweithredu, adnoddau a risgiau, efallai y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cymryd yn hwy i gyflawni'r gwelliannau a'r deilliannau bwriadedig. Mae trefniadau rheoli risg effeithiol yn bwysig i ategu'r penderfyniadau hyn.

23 Mae'r Ddogfen Cychwyn Prosiect ddrafft yn cynnwys proses i adnabod, uwchgyfeirio a monitro risgiau Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Fodd bynnag, nid oedd llawer o risgiau wedi'u datblygu'n llawn ar adeg ein gwaith ni. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd bod risgiau'r rhaglen yn cael eu rheoli mewn ffordd gyson.

# Monitro a goruchwylio

## Mae adroddiadau ar hyn o bryd yn darparu golwg dda ar berfformiad gweithrediadol, ond sicrwydd cyfyngedig bod gweithgarwch gwella'n dwyn manteision mesuradwy

### Monitro camau gwella

24 Mae gwaith gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn cael ei fonitro trwy gamau gweithredu a nodir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2026-29, gyda diweddariadau'n cael eu nodi mewn adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn adrodd wrth y fforymau hyn ar waith allweddol, megis ail-gylchrestru a phwysau ar wasanaethau sy'n effeithio ar y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys.

25 Ar adeg ein gwaith ni, roedd cynnydd o ran cyflawni llawer o gamau gweithredu'r Ymddiriedolaeth o ran Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn arafach nag a fwriadwyd. Disgrifiwyd llawer o gamau gweithredu fel rhai a oedd wrthi'n cael eu datblygu neu mewn cyfnod cynnar o ran eu cyflawni. Er enghraifft, bu oedi gyda'r angen i ail-gylchrestru, a adnabuwyd yn 2019, oherwydd pandemig COVID-19 a'r angen i flaenoriaethu Gwasanaethau Meddygol mewn Argyfwng. Wedyn bu oedi pellach gyda'r prosiect oherwydd patrymau mwy cymhleth o ran y galw, pryderon ynghylch patrymau sifftiau arfaethedig, trafodaethau gydag undebau llafur, a heriau ailddylunio'r model gwasanaeth. O ganlyniad, bwriedir yn awr y bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith yn chwarter cyntaf 2026-27. Mae hyn yn awgrymu bod angen i'r Bwrdd gryfhau ei oruchwyliaeth ar gyflawni camau gwella.

26 Mae perfformiad yn cael ei fonitro gan yr Ymddiriedolaeth a’r Cydbwyllgor Comisiynu trwy ei Grŵp Sicrwydd Comisiynu. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ffordd gytunedig eto o dracio’r newidiadau ar draws y sefydliad y mae ei chynlluniau ar gyfer gwella’r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn dibynnu arnynt. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddi asesu a yw’r cynlluniau hynny ar y trywydd iawn. Gallai Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a awgrymwyd yn flaenorol gan y Cydbwyllgor Comisiynu, roi i'r Ymddiriedolaeth olwg fwy eglur ar gyflawni a llwybr i uwchgyfeirio achosion o oedi sy’n effeithio ar ei chamau gweithredu.

## Monitro perfformiad

27 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio fel rhan o'r drefn arferol i fonitro perfformiad y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys trwy ddangosfyrddau, adroddiadau strwythuredig, a goruchwyliaeth gan bwyllgorau. Mae data ynghylch perfformiad yn cael ei rannu'n rheolaidd gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu, y Grŵp Sicrwydd Comisiynu, a byrddau iechyd, gan roi darlun eglur o dueddiadau a risgiau ar draws y system.

28 Mae data ynghylch perfformiad yn dangos bod y galw am gludiant ar gyfer gwasanaethau arennol yn cynyddu a bod anghenion cleifion yn dod yn fwy cymhleth. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o ambiwlansys. Gall hyn leihau capasiti ambiwlansys ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a rhyddhau cleifion. Mae data ynghylch perfformiad yn dangos gwelliant ar draws mathau allweddol o siwrneiau, ond mae pwysau ar y gwasanaeth yn dal i fodoli.

29 Mae adborth cleifion ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn gyson yn amlygu pryderon ynghylch canslo ac oedi, sy'n effeithio ar hyder cleifion yn y gwasanaeth a'r Ymddiriedolaeth. Mae adroddiadau perfformiad yr Ymddiriedolaeth hefyd yn dangos bod canslo ar fyr rybudd, oedi, a chyfathrebu gwael yn dal i fod yn heriau allweddol.

30 Mae canslo'n cael ei achosi gan gymysgedd o faterion cleifion, ysbytai, y system a chapasiti Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Cafwyd 42,827 o achosion o ganslo rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026. Digwyddodd dros hanner oherwydd canslo gan ysbytai a chleifion, sy'n dangos nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu ymdrin â'r mater yma ar ei phen ei hun. Fodd bynnag, mae capasiti'n dal i fod yn gyfyngiad allweddol i'r Ymddiriedolaeth, gydag oddeutu un ymhob chwech achos o ganslo'n gysylltiedig â sefyllfa lle nad oedd unrhyw adnoddau ar gael ar adeg cynllunio.

31 Cafodd oddeutu 37% o siwrneiau eu canslo o fewn pedair awr i deithio rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026, nad oedd yn gadael rhyw lawer o amser i ailddefnyddio capasiti na threfnu cludiant amgen. Dengys hyn fod angen i'r Ymddiriedolaeth wella sut y mae'n cynllunio capasiti, cywirdeb archebion, a chyfathrebu gyda chleifion, gan hefyd weithio gydag ysbytai a byrddau iechyd i leihau achosion o ganslo y gellir eu hosgoi ac sy'n digwydd yn hwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhai camau gweithredu, gan gynnwys newidiadau i systemau cylchrestru a digidol, ond nid yw'r rhain yn arwain at welliant cyson eto yn y meysydd a amlygir fwyaf gan gleifion fel y rhai sy'n achosi pryder.

32 Ar adeg ein gwaith ni, nid oedd adroddiadau'n cysylltu mentrau gwella'n gyson â cherrig milltir cyflawni a manteision disgwyliedig. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dangos effaith camau gweithredu penodol ar berfformiad a phrofiad cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu tîm o fewn ei Gwasanaethau Digidol i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau. Fodd bynnag, mae uwch reolwyr yn cydnabod bod angen i ddull yr Ymddiriedolaeth o reoli newid wella.

33 Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau monitro cyfredol yn darparu golwg dda ar dueddiadau o ran perfformiad a meysydd lle ceir pwysau gweithrediadol. Fodd bynnag, i roi cymorth i wireddu Gweledigaeth y Dyfodol, dylai adroddiadau rheolaidd ddangos yn fwy eglur sut y mae disgwyl i gamau gwella sy'n flaenoriaeth (gan gynnwys digidol, cylchrestrau, a chydweithio gyda phartneriaid) leihau achosion o ganslo a gwella cyfathrebu. Dylent hefyd nodi graddfeydd amser cyflawni a dangos cynnydd yn erbyn manteision cytunedig. Byddai hyn yn cryfhau atebolrwydd ac yn gwella sicrwydd bod gweithgarwch gwella'n dwyn y manteision bwriadedig i gleifion a phartneriaid.

# Argymhellion

34 Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith.

## Cryfhau cynllunio a chyflawni ar y cyd

**A1** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys i roi cymorth i wireddu Gweledigaeth y Dyfodol trwy ddiffinio'n glir beth yw'r deilliannau, cyfrifoldebau, a'r gofynion o ran adnoddau. Dylai:

**A1.1** Diffinio deilliannau a manteision mesuradwy ar gyfer camau gwella allweddol (**paragraffau 13 a 33**).

**A1.2** Cytuno ar gynllun cyflawni ar y cyd gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu a byrddau iechyd, gan nodi rolau, cyfrifoldebau a chamau gweithredu ar y cyd (**paragraffau 14 ac 15**).

**A1.3** Nodi'r gofynion o ran adnoddau a'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys ble y mae angen cyfaddawdu neu flaenoriaethu (**paragraffau 16, 21, a 22**).

## Cryfhau trefniadau rheoli'r rhaglen a rheoli risg

**A2** Dylai'r Ymddiriedolaeth fynd ati'n llawn i sefydlu Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys a sicrhau bod trefniadau ar gyfer risgiau a goruchwylio o gymorth i'w chyflawni. Dylai:

**A2.1** Sefydlu trefniadau craidd ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys arweinwyr ffrydiau gwaith, prosesau adrodd, cofrestr risgiau lawn, a mesurau o lwyddiant (**paragraffau 17 ac 18**).

**A2.2** Sicrhau bod risgiau'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn cael eu halinio'n glir ar draws fframwaith risgiau'r rhaglen a'r fframwaith risgiau corfforaethol (**paragraffau 19 a 23**).

**A2.3** Cryfhau cysylltiadau rhwng blaenoriaethau, risgiau, adnoddau a chynlluniau cyflawni (**paragraffau 20 i 22**).

**A2.4** Cytuno ar drefniadau goruchwylio ar lefel system gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu a byrddau iechyd i roi cymorth i wireddu Gweledigaeth y Dyfodol ar draws sefydliadau (**paragraff 26**).

## Gwella cyflawni a chydlyniad y system

**A3** Dylai'r Ymddiriedolaeth gyflymu gwaith i gyflawni camau gwella a chryfhau cydlyniad gyda phartneriaid. Dylai:

**A3.1** Nodi a chyflawni yn erbyn llinell amser eglur ar gyfer y camau gweithredu i leihau achosion o ganslo a gwella profiad cleifion, gan gynnwys cyfathrebu gyda chleifion (**paragraffau 25 a 29 i 31**).

**A3.2** Gwerthuso a chymhwyso gwersi o beilotau integreiddio'r system (**paragraff 13**).

**Cryfhau adroddiadau a goruchwyliaeth ar berfformiad a'i effaith**

**A4** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau trefniadau adrodd a goruchwyliaeth gan y Bwrdd i ddangos yn glir beth yw effaith camau gwella ar berfformiad a phrofiad cleifion. Dylai:

**A4.1** Cysylltu camau gwella â cherrig milltir, manteision disgwyliedig, a deilliannau mewn adroddiadau rheolaidd, gan alluogi'r Bwrdd i dracio gweithgarwch cyflawni (**paragraffau 32 a 33**).

**A4.2** Tracio cynnydd ac adrodd ar gynnydd yn erbyn mesurau allweddol, gan gynnwys achosion o ganslo, amseroldeb, a phrofiad cleifion, fel bod y Bwrdd yn gallu asesu a yw perfformiad yn gwella (**paragraffau 27 i 31**).

**A4.3** Defnyddio perfformiad ac adborth cleifion i asesu a yw gwelliannau'n dwyn yr effaith fwriadedig ac yn cynorthwyo'r Bwrdd i herio a mireinio'r dull lle mae cynnydd yn gyfyngedig (**paragraffau 29 i 33**).

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom ystyried pa mor dda y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i threfnu i gyflawni gwelliannau i'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Yn arbennig, fe wnaethom ystyried pa mor dda y mae cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Gweledigaeth y Dyfodol. Fe wnaethom hefyd ystyried sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn rheoli, yn monitro ac yn goruchwylio cynnydd yn erbyn ei chynlluniau a'u heffaith ar berfformiad y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol

- A oes gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau eglur a realistig i gyrraedd y nodau yng Ngweledigaeth y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys 2030 mewn perthynas â moderneiddio ar gyfer newid?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu a chostio'r adnoddau y mae eu hangen i sicrhau bod Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys 2030 yn cael ei gwireddu'n effeithiol?
- A oes trefniadau arwain a goruchwylio eglur i sicrhau bod Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn cael ei gwireddu'n llwyddiannus erbyn 2030?
- A yw'r Ymddiriedolaeth yn monitro perfformiad y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys a'r modd y cyflawnir ei chynlluniau gwella mewn modd effeithiol?

## Meini Prawf

Fe wnaethom asesu dull yr Ymddiriedolaeth yn erbyn meini prawf archwilio a siapiwyd gan gynlluniau strategol allweddol, gan gynnwys Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yng Nghymru - 2030.

# Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau, gan gynnwys yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol ac Adroddiad Monitro Chwarterol y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth (2026-29), a'r Ddogfen Cychwyn Prosiect ddrafft ar gyfer Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys;
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys fframwaith sicrwydd bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i chofrestrau risgiau gweithrediadol.
- Adroddiadau Archwilio Mewnol perthnasol, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Capasiti (2026).

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad;
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau (Gofal Ambiwlans);
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Digidol;
- Pennaeth Rheoli Ariannol;
- Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111 (Y Cydbwyllgor Comisiynu).

Fe wnaethom hefyd adolygu data a oedd ar gael o adroddiadau perfformiad rheolaidd yr Ymddiriedolaeth. Nid ydym wedi archwilio dilysrwydd y data o’r ffynhonnell hon.

# 2 Ymateb y Rheolwyr

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A1** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys i roi cymorth i wireddu Gweledigaeth y Dyfodol trwy ddiffinio'n glir beth yw'r deilliannau, cyfrifoldebau, a'r gofynion o ran adnoddau. Dylai:<br><br>**A1.1** Diffinio deilliannau a manteision mesuradwy ar gyfer camau gwella allweddol. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn yr argymhelliad hwn ac mae eisoes wedi sefydlu Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, a ategir gan drefniadau llywodraethu priodol, | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans sydd hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol – |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | gydag adroddiadau i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. Mae Cylch Gorchwyl wedi'i sefydlu ac wedi'i gytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Strategol. Byddir yn adrodd ar ddeilliannau a chyfrifoldebau am adnoddau trwy'r rhaglen erbyn mis Ebrill 2027. Bydd tystiolaeth trwy Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau, Adroddiadau Rhybuddio, Cynghori, Sicrhau – o'r rhaglen wella i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. | | Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys |
| **A1.2** Cytuno ar gynllun cyflawni ar y cyd gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu a byrddau iechyd, gan nodi rolau, cyfrifoldebau a chamau gweithredu ar y cyd. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â'r Cydbwyllgor Comisiynu ac yn darparu cofnodion cyfarfodydd/gohebiaeth i ddangos tystiolaeth o ymgysylltu. | Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A1.3** Nodi'r gofynion o ran adnoddau a'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys ble y mae angen cyfaddawdu neu flaenoriaethu . | Fel A1.1 | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |
| **A2** Dylai'r Ymddiriedolaeth fynd ati'n llawn i sefydlu Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys a sicrhau bod trefniadau ar gyfer risgiau a goruchwylio o gymorth i'w chyflawni. Dylai:<br><br>**A2.1** Sefydlu trefniadau craidd ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys arweinwyr ffrydiau gwaith, | Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn yr argymhelliad hwn ac mae eisoes wedi sefydlu Rhaglen Gwella'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, a ategir gan | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| prosesau adrodd, cofrestr risgiau lawn, a mesurau o lwyddiant. | drefniadau llywodraethu priodol, gydag adroddiadau i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol.  Mae Cylch Gorchwyl wedi'i sefydlu ac wedi'i gytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Strategol. Mae cofrestr risgiau wedi cael ei datblygu fel rhan o'r rhaglen hon ac fe'i hadolygir ym mhob un o gyfarfodydd y bwrdd rhaglen. Mae ffrwd waith ar gyfer mapio manteision yn mynd i fod yn cael ei chyflawni ym mis Medi 2026 a bydd adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol hefyd. Bydd tystiolaeth trwy Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau,  Adroddiadau Rhybuddio, Cynghori, Sicrhau  – | | |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | o'r rhaglen wella i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. | | |
| **A2.2** Sicrhau bod risgiau'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn cael eu halinio'n glir ar draws fframwaith risgiau'r rhaglen a'r fframwaith risgiau corfforaethol. | Fel A2.1 | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |
| **A2.3** Cryfhau cysylltiadau rhwng blaenoriaethau, risgiau, adnoddau a chynlluniau cyflawni. | Mae ffrydiau gwaith y rhaglen wella wedi dechrau adolygu hyn a bydd hyn yn dal i gael ei adolygu trwy strwythurau'r rhaglen sydd yn eu lle. Bydd unrhyw ofynion na ellir eu hateb o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu hamlygu'n | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | rheolaidd i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol a hefyd yn cael eu gosod i gael eu hystyried ar gyfer cylchoedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol. Bydd tystiolaeth trwy Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau, Adroddiadau Rhybuddio, Cynghori, Sicrhau – o'r rhaglen wella i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol a thrwy nodiadau cyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid Strategol. | | |
| **A2.4** Cytuno ar drefniadau goruchwylio ar lefel system gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu a byrddau iechyd i roi cymorth i wireddu | Bydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru'n sefydlu ymgysylltu rheolaidd â chomisiynwyr i ddarparu diweddariadau ar gynnydd y rhaglen wella ac ar | Hydref 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Gweledigaeth y Dyfodol ar draws sefydliadau. | wireddu gweledigaeth y dyfodol. Fodd bynnag, ein barn ni yw y bydd hyn yn golygu bod gofyn i'r Cydbwyllgor Comisiynu arwain y broses hon fel comisiynwyr arweiniol. Bydd tystiolaeth o hyn yn cael ei dangos trwy gofnodion y fforymau comisiynu hyn. | | |
| **A3** Dylai'r Ymddiriedolaeth gyflymu gwaith i gyflawni camau gwella a chryfhau cydlyniad gyda phartneriaid. Dylai: | | | |
| **A3.1** Nodi a chyflawni yn erbyn llinell amser eglur ar gyfer y camau gweithredu i leihau achosion o ganslo a gwella profiad cleifion, | Bydd y rhaglen wella'n darparu llinell amser eglur ar gyfer camau gweithredu y cytunwyd arnynt ac ymgysylltu â chleifion, gydag | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| gan gynnwys cyfathrebu gyda chleifion. | adroddiadau ar hynny i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol. Byddir yn adrodd ar gynnydd o ran lleihau achosion o ganslo trwy'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol.<br><br>Bydd tystiolaeth yn cael ei darparu trwy Adroddiadau Rhybuddio, Cynghori, Sicrhau /adroddiadau ar y prif bwyntiau i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol a'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol. | | |
| **A3.2** Gwerthuso a chymhwyso gwersi o beilotau integreiddio'r system**.** | Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y ffrydiau gwaith perthnasol o fewn y rhaglen wella ac yn cael ei | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | adlewyrchu yn y cynllun gwireddu manteision. | | |
| **A4** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau trefniadau adrodd a goruchwyliaeth gan y Bwrdd i ddangos yn glir beth yw effaith camau gwella ar berfformiad a phrofiad cleifion. Dylai: | | | |
| **A4.1** Cysylltu camau gwella â cherrig milltir, manteision disgwyliedig, a deilliannau mewn adroddiadau rheolaidd, gan alluogi'r Bwrdd i dracio gweithgarwch cyflawni. | Bydd hyn yn cael ei roi ar waith trwy'r rhaglen wella; Byddwn yn sicrhau bod adroddiadau ar hyn yn cael eu cyflwyno'n chwarterol trwy'r rhaglen wella i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol ac i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy adroddiadau ar gyflawni'r Cynllun | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Tymor Canolig Integredig a thrwy'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol.<br>Bydd tystiolaeth yn cael ei darparu trwy Adroddiadau Rhybuddio, Cynghori, Sicrhau /adroddiadau ar y prif bwyntiau i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol a'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol. | | |
| **A4.2** Tracio cynnydd ac adrodd ar gynnydd yn erbyn mesurau allweddol, gan gynnwys achosion o ganslo, amseroldeb, a phrofiad | Fel A4.1 | | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| cleifion, fel bod y Bwrdd yn gallu asesu a yw perfformiad yn gwella. | | | |
| **A4.3** Defnyddio perfformiad ac adborth cleifion i asesu a yw gwelliannau'n dwyn yr effaith fwriadedig ac yn cynorthwyo'r Bwrdd i herio a mireinio'r dull lle mae cynnydd yn gyfyngedig. | Rydym eisoes wedi sefydlu trefniadau cadarn i gasglu adborth cleifion, ei adolygu ac adrodd arno trwy arolygon cleifion, sianeli adborth trwy negeseuon SMS, arolygon o'r Cynllun Rheoli Capasiti a thrwy ymgysylltiad y tîm Profiad Cleifion a Chynnwys y Gymuned â chleifion. Byddwn yn sicrhau bod y broses hon yn dal i allu casglu'r wybodaeth ofynnol wrth i weithgarwch i gyflawni'r rhaglen wella fynd rhagddo. Byddir yn adrodd ar hyn ac yn ei adolygu yng nghyfarfodydd Uwch Dîm Arwain ac Uwch Dîm | Ebrill 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gofal Ambiwlans |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| | Gweithrediadau Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.<br><br>Bydd tystiolaeth yn cael ei darparu trwy Ddangosfwrdd Ansawdd y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys a chofnodion/ Adroddiadau Rhybuddio, Cynghori, Sicrhau o'r cyfarfodydd uchod. | | |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.